*This document is available in English* **Rhif ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **12/02/18** |
| Swyddog Arweiniol | **Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Arweiniol | **Richard Fairhead** |
| Pwnc | **Monitro gwybodaeth yn ymwneud â digwyddiadau** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru'r aelodau am y gwaith i ail-sefydlu'r modd o adrodd yn electronig am wybodaeth yn ymwneud â digwyddiadau, a hynny ar ôl gosod system meddalwedd newydd ar gyfer anfon allan ym mis Mawrth 2017.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae gosod system gorchymyn a rheoli newydd ym mis Mawrth 2017 wedi cael effaith ar y trefniadau presennol ar gyfer cofnodi, dilysu, trosglwyddo ac adrodd ynghylch data'n ymwneud â digwyddiadau. Mae gwaith yn mynd ei flaen i ddatrys y problemau hyn, felly nid yw'r swyddogion yn gallu cael gafael ar ddata perthnasol er mwyn darparu adroddiadau monitro chwarterol i'r Panel Gweithredol.

## ARGYMHELLION

3 Bod yr aelodau'n nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn.

## CEFNDIR

4 Ym mis Mawrth 2017, cafodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru system newydd ar gyfer anfon criwiau tân allan at ddigwyddiadau yn dilyn misoedd lawer o gynllunio.

5 Mae'r system anfon allan yn gysylltiedig â nifer o systemau eraill, gan gynnwys rhai a ddefnyddir ar gyfer cynllunio adnoddau, trosglwyddo digwyddiadau, data symudol a gwasanaethau teleffoni a rheoli cofnodion. Yn arbennig, mae'n integreiddio gyda'r System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) genedlaethol a gydag adroddiadau rheoli gwasanaethau.

6 Ers 2009, mae gwybodaeth am ddigwyddiadau y mae gwasanaethau tân ac achub y DU yn mynd atynt yn cael ei chofnodi mewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) ar y we, sy'n chael ei chynnal gan y Swyddfa Gartref (yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol o'r blaen). Yng Ngogledd Cymru, mae'r cofnod o ddigwyddiad yn y system yn cael ei gwblhau'n rhannol â llaw gan ddefnyddio cwymplenni a thestun rhydd.

7 Yn lleol, mae'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu drwy'r IRS yn cael ei chyfuno â gwybodaeth arall i ddarparu storfa bwysig o wybodaeth reoli sy'n cael ei defnyddio fel mater o drefn ar gyfer cynllunio gwasanaethau, ymgyrchoedd diogelwch y cyhoedd, i fodloni ceisiadau *ad hoc* am wybodaeth, ac er mwyn llunio adroddiadau monitro ac adroddiadau eraill am weithgareddau a pherfformiad.

**GWYBODAETH**

8 Wrth drosglwyddo drosodd i'r system anfon allan newydd, bu angen dechrau o'r dechrau gyda'r gwaith o sefydlu'r modd o adrodd drwy system IRS i'r Swyddfa Gartref a dod â'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r IRS, a'r wybodaeth a gesglir yn lleol, i gronfa ddata newydd. Daeth yn angenrheidiol hefyd i ganfod ffordd o fudo'r data sy'n bodoli ers cyn 21 Mawrth 2017 i'r gronfa ddata newydd fel bod modd cael gafael ar yr wybodaeth a gasglwyd cyn ac ar ôl y dyddiad hwnnw drwy un ymholiad electronig.

9 Mae'r gwaith cymhleth hwn yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Mae angen o hyd i staff y Gwasanaeth, yn gweithio gyda chyflenwyr y system, i wneud profion helaeth a gwaith datrys problemau. Yn dilyn cyfarfod ym mis Ionawr 2018 lle pwysleisiwyd mor hollbwysig yw gallu'r gwasanaeth i adrodd, dywedodd y cyflenwyr y bydd y gwaith angenrheidiol yn cymryd tua 3 mis i'w gwblhau, gan gytuno i flaenoriaethu'r gwaith pwysig hwn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Tarfu dros dro ar waith monitro perfformiad o gymharu â'r amcanion. |
| Cyllideb | Costau ychwanegol ar gyfer mynd i'r afael â phentwr o waith mewnbynnu gwybodaeth ynghyd â chynnal dwy gronfa ddata ar wahân. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn parhau o fewn y gost a ragwelwyd. |
| Cyfreithiol | Mae angen i'r ATA gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol yn ymwneud â gwelliant parhaus ac adrodd mewn perthynas â dangosyddion perfformiad statudol. |
| Staffio | Gwaith ychwanegol annisgwyl yn rhoi straen ar waith adrannau unigol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Adrodd yn anghyflawn neu'n anghywir yn lleihau ffydd yn y trefniadau gwneud penderfyniadau a/neu fonitro yn yr ATA. Gallai oedi ddigwydd i benderfyniadau'r ATA. Niwed posibl i enw da oherwydd methu ag ymateb i ymholiadau neu geisiadau am wybodaeth am berfformiad diweddar. |